

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/03/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

John Brinley Jones (Cad)	David Andrew Parry	Thomas Victor Jones	Greta Hughes
William Penri Jones	William Roger Jones	Gwenllian Hughes	Claire Russell Griffiths
Ian Goronwy Williams	Alan Harper-Smith	Ann Llwyd (Cyfieithydd)	Pat Humphreys (Clerc)

Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19

1. Ymddiheuriadau

Dim. Croesawyd yr aelodau newydd gan y cadeirydd.

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

William Roger Jones – cais cynllunio Llwynial, Llanbedrog.

3. Cofnodion Pwyllgor 22/02/2021

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: Andrew Parry Eilio: William Penri Jones

13. Polisi Iaith – Cyfieithu

Gan fod un o'r aelodau newydd yn ddi gymraeg mae cyfieithydd wedi cael ei drefnu ar gyfer y cyfarfod ac oherwydd hyn mae'r drefn wedi cael ei newid ychydig i drafod y pwynt yma yn gyntaf. Mae gan y Cyngor bolisi iaith ac yn y polisi hwnnw mae'n dweud mai Cymraeg ydi iaith weithredol y Cyngor ac mae'r clerc a'r cadeirydd wedi bod yn ceisio cael arweiniad ar y mater gan Cyngor Gwynedd ac Un Llais Cymru ond eu hateb nhw ydi ei bod i fyny i'r Cyngor wneud penderfyniad ar y mater. Nid oes Cyngor Cymuned/Tref arall ym Mhen Llŷn hefo aelod di gymraeg felly nid yw'r sefyllfa yma yn bodoli i ni fedru cael arweiniad gan Cynghorau Cymuned/Tref ychwaith. Derbyniwyd templed o bolisi iaith gan Comisiynydd yr Iaith ond nid yw'n berthnasol i ni ond yr hyn sydd yn amlwg ynddo ydi bod angen darparu cyfieithydd yn y cyfarfodydd os oes angen. Gofynnodd Victor Jones os yw Alan Harper-Smith yn deall Cymraeg o gwbl ar ymateb oedd nad yw yn siarad Cymraeg er ei fod wedi bod ar ambell gwrs dysgu Cymraeg ond wedi methu pigo'r iaith i fyny ond os yw'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Gymraeg ei fod yn fodlon gyda hynny ac yn fodlon talu am y cyfieithydd. Dywedodd Greta Hughes mai ei dealldwriaeth hi o'r deddf iaith oedd cydraddoldeb i'r ddwy iaith a gan fod mwy na hanner plwyfolion Llanbedrog bellach yn un iaith saesneg tydi hi ddim ond yn deg i ddarparu cyfieithydd ar gyfer Alan Harper-Smith ac mae hi'n ei groesawu i'r Cyngor. Dywedodd hefyd ei bod yn amser i'r Cyngor symud ymlaen a newid y polisi iaith i gyd-fynd hefo'r ddeddf iaith. Cytunodd Claire Russell Griffiths hefo Greta Hughes gan ddweud ei fod yn bwysig nad yw'r Cyngor yn gwahaniaethu rhwng neb sydd eisiau cyfrannu ac hefyd ei fod yn bwysig fod yr aelodau di gymraeg o'r cyhoedd sydd eisiau ymuno yn y cyfarfodydd yn deallt beth sydd yn mynd ymlaen a bod y ddarpariaeth cyfieithu yn bodoli ar eu cyfer nhw hefyd. Mae William Roger Jones yn cytuno hefyd bod angen darparu cyfieithydd er mwyn i bawb gael cyfle i wybod beth sydd yn mynd ymlaen yn y cyfarfodydd. Gofynnodd Ian Goronwy Williams os yw'r Cyngor wedi cael cyngor cyfreithiol ar y polisi iaith ac fe atebodd y cadeirydd fod Comisiynydd yr Iaith wedi cysylltu yn dweud nad yw polisi iaith y Cyngor yn un y mae nhw wedi ei gymeradwyo. Cynigiodd William Roger Jones bod y Cyngor yn darparu ac yn talu am y gwasanaeth cyfieithu i Alan Harper-

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/03/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Smith yn y cyfarfodydd ac hefyd cyfieithu yr agenda a'r cofnodion ac mae Claire Russell Griffiths yn eilio y cynnig. Cynigiodd Greta Hughes fod y clerc yn defnyddio 'google translate' ac yn darllen drwy'r cyfieithiad wedyn i wneud yn siwr ei fod yn darllen yn iawn.

Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i ddarparu cyfieithydd yn y cyfarfodydd a cyfieithu yr agenda a'r cofnodion. Gofynwyd i'r clerc ddefnyddio 'google translate' i gyfieithu'r agenda a'r cofnodion a cadw cofnod o faint o amser ychwanegol mae hyn yn mynd i gymeryd ac hefyd i gysylltu gyda'r cyfieithydd Ann Llwyd i ofyn os yw hi yn fodlon cario ymlaen i gyfieithu yn y cyfarfodydd ac adrodd nôl i bwyllgor mis Ebrill.

Cynnig: William Roger Jones Eilio: Claire Russell Griffiths

4. Unrhyw Fater Brys

Cartref Dolwar

Cafwyd cais gan Cartref Dolwar drwy'r cynghorydd lleol Angela Russell am ganiatad i ddefnyddio Neuadd y Pentref Llanbedrog fel man ymgynull mewn achos o dân neu argyfywng.

Penderfyniad: y clerc i yrru llythyr ffurfiol iddynt yn rhoi caniatad ac i dori gorriad iddynt.

Cynnig: William Penri Jones Eilio: Andrew Parry

Mae hen diffib y Cyngor Cymuned yn sefyll yn segur yn Neuadd y Pentref felly awgrymodd y cadeirydd os y byddai modd ei werthu i Cartref Dolwar.

Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i'w roi fel rhodd i Cartref Dolwar a'r clerc i basio'r neges ymlaen iddynt drwy'r cynghorydd lleol Angela Russell.

Cynnig: Claire Russell Griffiths Eilio: William Penri Jones

Aelodau Newydd

Cafwyd cais gan y clerc i gael manylion yr aelodau newydd er mwyn diweddarau'r wefan.

5. Llwybrau

Giat ar llwybr drwy'r Nant

Yn dilyn y pwyllgor diwethaf fe gysylltodd y clerc gyda Dewi Wyn Owen ynglŷn â'r giat ar ymateb oedd bod y giat wedi cael ei thrwsio a'i bod yn barod i gael ei gosod yn ôl os oedd pawb eisiau gwneud hynny. Fe anfonodd y clerc ebost allan yn gofyn i'r aelodau beth oedd eu sylwadau ac oherwydd mai dim ond dau ymateb a dderbyniwyd mae wedi cael ei roi ar yr agenda i gael barn yr aelodau i gyd.

Penderfyniad: y clerc i ofyn i Dewi Wyn Owen roi'r giat yn ôl er diogelwch defnyddwyr y llwybr.

Cynnig: William Penri Jones Eilio: Claire Russell Griffiths

Ymateb Cyngor Gwynedd i ymholiad llêd llwybr cyhoeddus a tyfiant ar y llwybrau

Cafwyd ebost yn ôl gan Cyngor Gwynedd mewn ymateb i ymholiad y clerc yn dilyn pwyllgor mis Ionawr i reolau ynglŷn â'r llwybrau ac yn sicr ar ôl eu darllen mae angen gwneud rhywbeth ynglŷn â llwybr o gefn yr Ysgol i Wern Newydd gan ei fod yn ofnadwy o gul oherwydd fod coed wedi tyfu ar y ddwy ochor a dim lle i gerdded.

Penderfyniad: y clerc i ofyn i Cyngor Gwynedd gysylltu gyda'r tir feddiannwr i dorri'r tyfiant bob ochor i'r llwybr.

Cynnig: Claire Russell Griffiths Eilio: Victor Jones

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/03/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Cadarnhaodd y cadeirydd ei fod wedi cysylltu hefo J A Pozzi i wneud y gwaith ychwanegol am eleni yn dilyn ein pwyllgor diwethaf.

Cafwyd cais gan Ian Goronwy Williams i gopiau o'r mapiau llwybrau cyhoeddus a anfonwyd gan y cadeirydd i'r aelodau y mis diwethaf gael eu blaenyrru i'r aelodau newydd ac addawodd y clerc i wneud hynny.

Gofynnodd Claire Russell Griffiths am gadarnhad fod y contractwyr a gafodd y cytundebau torri llwybrau, mynwent, cae chwarae a tiroedd y Cyngor wedi anfon eu polisiau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus i'r Cyngor Cymuned ac fe addawodd y clerc i wneud yn siwr fod hyn yn digwydd.

Cafwyd cwyn gan Andrew Parry am y llwybr sydd yn mynd heibio tŷ William Penri Jones sydd yn rhedeg hefo'r giat fochyn at y 'zig zag' lle mae sêl i eistedd fod y dŵr wedi golchi'r concrit i ffwrdd nes fod y tir yn anwastad a bod yna 'step a drop' yna sydd yn berygl ofnadwy ac hefyd mae'r pyst sydd yn dal y pren ar y sêl wedi pydru i gyd.

Penderfyniad: gofyn i'r gweithiwr achlysurol ddelio gyda hyn.

6. Y Fynwent

Tacluso'r Fynwent

Mae'r cadeirydd wedi bod yn gweld Mrs Pollard ac wedi dweud wrthi unwaith y byddem wedi apwyntio gweithiwr achlysurol fe fydd y wal yn cael ei thrwsio.

Ewyllys Mrs Harris

Mae copi o'r ewyllys wedi cael ei anfon i'r aelodau ac fe fydd copi yn cael ei anfon i'r aelodau Newydd. Mae'r mandate Nat West i newid y sawl sydd yn arwyddo'r sieciau gan y cadeirydd yn trefnu iddo gael ei arwyddo cyn iddo gael ei yrru nôl i Nat West gyda'r cofnodion sydd yn trafod y mater. Mae'n dweud yn yr ewyllys fod yr arian i'w wario ar gynnal a chadw'r fynwent a'i bedd hi felly mae'n bwysig fod y Cyngor yn defnyddio'r arian ar gyfer hyn. Cynnigiodd Greta Hughes ein bod yn rhoi blodau ar fedd Mrs Harris gan ei bod wedi rhoi cyfraniad mor hael i'r Cyngor ac mae Victor Jones a William Penri Jones yn cytuno.

Penderfyniad: rhoi blodau ar fedd Mrs Harris dair gwaith y flwyddyn sef Sul y Blodau, ar ei phenblwydd a'r Nadolig.

Cynllunio i'r Dyfodol – Y Fynwent Newydd

Fe anfonwyd copi o'r cais cynllunio a basiwyd sydd bellach wedi rhedeg allan i'r aelodau, ac fe fydd copi yn cael ei anfon i'r aelodau newydd hefyd. Fe fydd rhaid cyflwyno cais cynllunio arall cyn cychwyn ar y datblygiad ond os na fydd newid yn y bwriad fe fydd modd ail ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cais blaenorol.

Newid enw'r Trustees

Ar ôl i'r clerc gysylltu gyda swyddfa Bryn Martin i holi ynglŷn a newid enw'r trustees, gan fod dau wedi marw ac un wedi gadael y Cyngor, derbyniwyd llythyr yn ôl ganddynt yn egluo'r drefn a rhoi pris am ddeilio hefo'r mater sef £250 + taw a ffi Cofrestrfa Tir.

Penderfyniad: gadael enw Greta Hughes ac ychwanegu enw y cadeirydd, y clerc ac Andrew Parry.

Cynnig: William Penri Jones Eilio: Victor Jones

Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 29/03/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Mae'r aelodau yn fodlon ar y telerau ac felly y clerc i gysylltu gyda swyddfa Bryn Martin i ofyn wrthynt drefnu hyn a gwneud yn saff nad ydyw yn cymeryd gormod o amser gan fod hyn angen cael ei wneud yn weddol sydyn.

Cynnig: William Roger Jones Eilio: Claire Russell Griffiths

7. Cae Chwarae

Trwshio'r ffens – Ymateb Stuart Livingstone i delerau'r Cyngor Cymuned.

Fe gysylltodd y clerc gyda Stuart Livingstone yn egluo'r telerau sef bod y Cyngor Cymuned yn fodlon talu £12 yr awr, dywedodd ei fod fel arfer yn codi £19 yr awr ond mae o yn fodlon gwneud y gwaith am £15 yr awr i'r Cyngor Cymuned.

Penderfyniad: derbyn telerau Stuart Livingstone a talu £15 yr awr iddo a cael copi o'i yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Cynnig: Andrew Parry Eilio: Victor Jones

Rheoliadau Mangroedd a Cherbydau Di-fwg Cymru 2020

Derbyniwyd ebost gan Cyngor Gwynedd yn dweud ers 1af Mawrth 2021 fod ysmegu wedi cael ei wahardd ar feysydd chwarae cyhoeddus a'i bod yn ofynnol arddangos rhybuddion ar bob mynedfa i'r meysydd chwarae. Mae templed o'r arwydd wedi ei atodi gyda'r ebost er hwylustod.

Penderfyniad: y clerc i ofyn am amcanbris gan Designer Signs am arwyddion i'r cae chwarae, llecyn mwyniant a Cae Pentre Llan a'i anfon ymlaen i'r aelodau.

Cynnig: Greta Hughes Eilio: Victor Jones

9. Sedd Wag

Mae un sedd wag o hyd ar y Cyngor Cymuned ac mae dau opsiwn gan y Cyngor, aros blwyddyn tan yr etholiadau nesaf neu llenwi'r sedd wag rwan er mwyn cael Cyngor llawn. Mae Greta Hughes eisiau llenwi'r sedd wag a'i hysbysebu ar y wefan, gweplyfr, papur lleol a hysbysfyrddau y pentref.

Penderfyniad: dechrau'r broses o llenwi'r sedd wag a rhoi hysbysebion i fyny ar hysbysfyrddau y pentref, wefan, gweplyfr a papur lleol gyda dyddiad cau o fis o'r diwrnod mae'r hysbyseb yn mynd i fyny.

Cynnig: William Penri Jones Eilio: Greta Hughes

10. Awdit

Ffurflen Flynyddol ac Adroddiad y BDO 2017-18

Anfonwyd copi o'r ddwy ddogfen i'r aelodau drwy ebost. Ers y cyfarfod gyda'r archwilwyr mewnol ac i'r clerc newydd gychwyn mae nifer o faterion wedi cael eu gwneud fel gorffen y gofrestr eiddo, ad-daliad TAW, ac mae'r clerc wedi ateb pwyntiau y BDO ynglŷn â'r flwyddyn 2019-2020. Dywedodd Greta Hughes ei bod yn siomedig o weld yr adroddiad oherwydd ei bod yn meddwl fod bob dim yn iawn pan anfonwyd yr awdit i fewn ond yn amlwg nad oeddent ac mae'n edrach ymlaen i weld adroddiad y blynyddoedd nesaf gan fod yr un pwyntiau yn cael ei codi dro ar ôl tro. Awgrymodd Claire ein bod yn cael cyfarfod i drafod y pryderon ynglŷn â'r adroddiad yma oherwydd maen amlwg os yw hwn yn wael mae'r ddau nesaf yn mynd i fod yn waeth a bod angen 'action plan' i'w sortio allan. Mae adroddiad yr archwilwyr mewnol yn dangos bod gwallau yn y

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/03/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

blynyddoedd nesaf hefyd felly mae'r BDO yn mynd i edrych i fewn i'r ffordd mae'r Cyngor wedi ateb y diffygion hynny. Gan fod yna gymaint o aelodau newydd a'r rheiny ddim yn ymwybodol o beth sydd wedi bod yn mynd ymlaen mae William Penri Jones yn eilio cynnig Claire i gael cyfarfod arbennig i sortio hyn allan. Mae Greta Hughes yn cyd fynd â'r cynnig ac mae pawb yn cytuno. Gan ei bod yn ddiwedd y flwyddyn ariannol mae'r clerc angen paratoi awdit 2020-21 ar gyfer yr archwilwyr mewnlol ac mae ganddi o fis Ebrill hyd at fis Mehefin i wneud hynny felly cynigiodd y cadeirydd er mwyn i'r clerc gael amser i wneud hyn gohirio'r cyfarfod nes bydd awdit 2020-21 wedi cael ei baratoi gan y clerc a cytunodd William Penri Jones.

Penderfyniad: rhoi'r eitem ar agenda mis Mehefin.

Cynnig: John Brinley Jones Eilio: William Penri Jones

11. **Coronavirus covid-19** – Diweddariad & Polisi Iechyd a Diogelwch

Dim diweddariad – cario mlaen i ddefnyddio Zoom.

12. **Neuadd y Pentref – Diweddariad**

Dim diweddariad.

14. **Asesiad Risc**

Cytunwyd ym mhwyllgor mis Ionawr fod y mater yn cael ei sortio mis yma gan fod y clerc ei angen i'r archwiliad mewnlol. Mae copi wedi ei anfon i bawb er mwyn iddynt benderfynnu beth oedd angen ei dynnu i ffwrdd neu ei newid.

Penderfyniad: y clerc i yrru copi i bawb eto a'i roi ar agenda mis Ebrill i bawb gael cyfle i edrych drosto unwaith eto a gadael i'r clerc wybod beth y maent angen ei newid yn syth drwy ebost.

Cynnig: Andrew Parry Eilio: William Penri Jones

Gofynnodd Claire Russell Griffiths hefyd os fuasai'n bosibl i bawb gael copi o'r Rheoliadau Ariannol a Sefydlog i fynd drwyddynt a dywedodd y clerc bod y rheoliadau yma i fod i gael eu pasio yn y pwyllgor blynyddol ym mis Mai bob blwyddyn ynghyd â nifer o ddogfennau eraill ac y buasai'n anfon y dogfennau i bawb cyn y pwyllgor nesaf iddynt gael cyfle i edrych drostynt. Gofynnodd Claire Russell Griffiths hefyd os fuasai y trefn cwyno yn cael ei newid yn syth gan bod manylion y cyn glerc i lawr ac addawodd y clerc i wneud yn syth.

15. **Llythyr Cyngor Tref Nefyn**

Derbyniwyd llythyr gan Cyngor Tref Nefyn ynglŷn â'r broblem 'baw ci' yn yr ardal ac fe'i anfonwyd ymlaen i'r aelodau. Eglurodd y clerc beth oedd yn y llythyr i bawb ac mai mater ar gyfer y dyfodol yw hwn.

Penderfyniad: yr aelodau i feddwl am y mater a gwneud penderfyniad ym mhwyllgor mis Ebrill.

8. **Oriau ychwanegol y cyn glerc (87 awr)**

Derbyniwyd llythyr gan y cyn glerc ac fe'i anfonwyd ymlaen i'r aelodau. Cytunodd Greta Hughes i fynd drwy'r cofnodion mis diwethaf a gwneud rhestr o'r gwaith nad oedd y cyn glerc wedi ei wneud ac fe gafodd drafferth i gael hyd i beth oedd y cyn glerc wedi ei wneud ac oherwydd hynny nid yw Greta Hughes eisiau talu'r arian i'r cyn glerc.

Penderfyniad: Trafod y mater mis nesaf.

Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

Cadeirydd – John Brinley Jones • jbjones@ppm-technology.com • 07775577869 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/03/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Cynnig: Greta Hughes Eilio: Claire Russell Griffiths

Ceisiadau Cynllunio

C21/0235/38/CC – Llwynial, Llanbedrog – Gwaith i goed sydd yn destun Gorchymyn Gwarchod Coed.
Penderfyniad: Gadael i Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd a'r Swyddog Coed wneud penderfyniad.

Taliadau wedi eu Cymeradwyo

Cyflog y Clerc – Pat Humphreys	£380.33
Cradur.com – We-letya blynyddol a chynhaliaeth	£33.00
HMRC – PAYE – Chwefror & Mawrth	£156.00
Un Llais Cymru - Aelodaeth	£243.00
Ashley Hughes – offer swyddfa	£17.56

Taliadau wedi eu Derbynnu

Ifan Hughes – angladd Nancy Price	£145.00
Ifan Hughes – angladd Thomas John Roberts	£285.00
Ymddiriedolaeth Genedlaethol – cyfraniad toiledau 2020-2021	£1,000.00

Cynnig: William Penri Jones Eilio: Andrew Parry

Gofynnod y cadeirydd i'r clerch yrru anfoneb arall i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am gyfraniad i'r toiledau am y flwyddyn 2021-22.

Gohebiaeth

1. **Clerks & Council Direct** – Newyddlen
2. **Un Llais Cymru** – Hyfforddiant
3. **CLILC** - 23.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan
4. **Llywodraeth Cymru** - Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth
5. **GIG** - AP Covid-19
6. **Llywodraeth Cymru** - Diweddariad - Cofio 2020
7. **Llywodraeth Cymru** - 30.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
8. **CLILC** - 02.10.2020 Diweddariad am y coronafeirws
9. **Panel Annibynnol Cymru** - Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021
10. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** - Cylchlythyr Medi 2020
11. **Un Llais Cymru** - Hyfforddiant ar lein - Cymorth Cynllunio Cymru
12. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am clyw
13. **Un Llais Cymru** - rhaglen gweminarau hyfforddiant 2020/21

Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

Cadeirydd – John Brinley Jones • jbjones@ppm-technology.com • 07775577869 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 29/03/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Cais am gyfraniad

1. **Macmillan Cancer Support** – cais am gyfraniad ariannol
2. **Cronfa Capel Bethania Pistyll** – cais am gyfraniad ariannol

Penderfyniad

1. Ei gadw ar y rhestr at mis nesaf
2. Rhoi cyfraniad o £100.00 tuag at yr achos.
Cynnig: Andrew Parry Eilio: Ian Williams

Diolchodd y cadeirydd i'r cyfieithydd am ei gwaith a dweud y bydd y clerc mewn cysylltiad i drafod y gwaith cyfieithu i'r dyfodol.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 21.04